# Canllaw Anfonebu

Er mwyn i anfoneb a godir mewn perthynas â chyflenwi nwyddau neu wasanaethau trethadwy fod yn ddilys, rhaid iddi ddangos:

### 1. Trafodion dros £250

- Rhif anfoneb unigryw
- Rhif archeb brynu (os yw ar gael)
- Dyddiad cyflenwi, a phwynt treth
- Enw'r gwerthwr neu'r enw masnachu, a chyfeiriad
- Rhif cofrestru TAW y gwerthwr
- Dyddiad anfonebu
- Amser cyflenwi (a elwir hefyd yn bwynt treth) os yw'n wahanol i'r dyddiad anfonebu
- Enw a chyfeiriad y cwsmer
- Disgrifiad sy'n ddigonol i adnabod pa nwyddau neu wasanaethau a gyflenwyd i'r cwsmer
- Math o gyflenwad - h.y. gwerthu, llogi, rhentu, ac ati.
- Cyfradd unrhyw ostyngiad a gynigiwyd, a
- Chyfanswm y TAW a godir

Ar gyfer pob math gwahanol o eitem a restrir ar yr anfoneb, rhaid dangos:

- Pris neu gyfradd fesul uned, ac eithrio TAW
- Swm y nwyddau neu raddau'r gwasanaethau
- Cyfradd TAW sy'n berthnasol i'r hyn sy'n cael ei werthu
- Cyfanswm y swm taladwy, ac eithrio TAW

Rhaid i anfoneb TAW sy'n cynnwys nwyddau neu wasanaethau cyfradd sero neu sydd wedi'u heithrio:

- Ddangos yn glir nad oes TAW yn daladwy ar y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny
- Dangos cyfanswm y gwerthoedd hynny ar wahân

### 1. Trafodion o dan £250 (anfonebau TAW wedi'u symleiddio)

Gall cyflenwyr ddefnyddio anfoneb TAW symlach ar gyfer gwerthu nwyddau neu wasanaethau am £250 neu lai gan gynnwys TAW. Mae angen i'r anfoneb TAW symlach ddangos:

- Rhif anfoneb unigryw
- Rhif archeb brynu (os yw ar gael)
- Enw a chyfeiriad y gwerthwr
- Rhif cofrestru TAW y gwerthwr
- Amser cyflenwi (pwynt treth)
- Disgrifiad o'r nwyddau neu'r gwasanaethau
- Ar gyfer pob cyfradd TAW sy'n berthnasol, cyfanswm y swm sy'n daladwy, gan gynnwys TAW a'r gyfradd TAW a godir

### 2. Anfonebau gan gyflenwyr nad ydynt wedi cofrestru at ddibenion TAW

- Rhif anfoneb unigryw
- Rhif archeb brynu (os yw ar gael)
- Enw a chyfeiriad y gwerthwr
- Amser cyflenwi (pwynt treth)

- Disgrifiad o'r nwyddau neu'r gwasanaethau
- Ar gyfer pob cyfradd TAW sy’n berthnasol, cyfanswm y swm sy’n daladwy, gan gynnwys TAW a'r gyfradd TAW a godir